| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Y Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Medi 2022 |
| **Lleoliad:** | Drwy Zoom |
| **Enw:** | **Teitl:** |
| Sam Rowlands | Is-gadeirydd – Aelod o'r Senedd |
| Jeremy Miles | Y Gweinidog Addysg |
| Paul Donovan | Ysgrifenyddiaeth – Cynghrair Awyr Agored Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Rebecca Brough | Ysgrifenyddiaeth – Ramblers Cymru |
| Graham French | Aelod – Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored – Gogledd Cymru |
| Clare Adams | Aelod – Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru |
| Kathryn Stewart | Aelod – Cymdeithas Ceffylau Prydain |
| Jethro Moore | Aelod – Y Siarter Arfordiro Cenedlaethol |
| Catherine Williams | Aelod – Eryri-Bywiol a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Emma Robinson | Aelod – Y Gymdeithas Hostelau Ieuenctid |
| Paul Airey | Aelod – Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Mark Jones | Aelod – Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Mike Rosser | Aelod – Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru ac Adventure UK |
| Gethin Thomas | Aelod – Pwyllgor Rheoli Cymwysterau, Cymdeithas Ogofa Prydain |
| Tom Carrick | Aelod – Cyngor Mynydda Prydain |

| | |
|---|---|
| Sue Williams | Sylwedydd – Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Phil Stone | Aelod – Canŵ Cymru |
| Simon Patton | Aelod – Hyfforddiant Mynydda Cymru |
| Angela Jones | Aelod – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Paul Frost | Aelod – Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| Steve Morgan | Aelod – Plas Menai a Chwaraeon Cymru |
| Eben Muse | Aelod – Cyngor Mynydda Prydain |
| Phil Stubbington | Aelod – Gwobr John Muir (Cymru) |
| Beverley Penny | Aelod – Cymdeithas Mannau Agored |
| Sian Thomas | Sylwedydd – Ymchwil y Senedd |
| Arwel Elias | Aelod – Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru |
| Richard John | Aelod – Deryn, ar ran yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru |
| Greg Whiting | Sylwedydd – Tîm Addysg y Senedd |

| Ymddiheuriadau | |
|---|---|
| **Enw:** | **Teitl:** |
| Huw Irranca-Davies | Cadeirydd – Aelod o'r Senedd |
| Andy Meek | Aelod – Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored – De Cymru |
| Delyth Jewell | Aelod o'r Senedd |
| Llyr Gruffydd | Aelod o'r Senedd |
| Peredur Owen | Aelod o'r Senedd |
| Heledd Fychan | Aelod o'r Senedd |
| Steve Rayner | Aelod – Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Alison Roberts | Aelod – Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Paul Renfro | Aelod – Fforwm Arfordir Sir Benfro, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |
| Alistair Dickson | Aelod – Canŵ Cymru |
| Cefin Campbell | Is-gadeirydd – Aelod o'r Senedd |
| Sian Richings | Aelod – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) |
| Emma Edwards-Jones | Aelod – Eryri-Bywiol a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru |

**Crynodeb o'r cyfarfod**

Derbyniwyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

Camau a gododd yn flaenorol:

1. Anfonwyd llythyr at Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ynghylch treialu diwygiadau o ran mynediad.  Mae'r grŵp yn parhau i aros am ymateb.
2. Nid yw aelodau'r grŵp eto wedi cynnal trafodaethau ynghylch adnoddau ar gyfer gwneud gwaith pellach ar ddiwygio'r gyfundrefn mynediad.

**Cyflwyniad**

Cafwyd cyflwyniad gan Graham French, a siaradodd am Addysg a Dysgu Awyr Agored yng Nghymru.

Dyma'r pwyntiau a godwyd yn y cyflwyniad:

1. Tynnwyd sylw at ddiffiniadau defnyddiol:

- Dysgu awyr agored – pynciau a addysgir yn yr awyr agored, a dull gweithredu y gellir ei ddefnyddio ar draws pob pwnc ac ar draws ystod eang o addysgu;
- Addysg antur – gweithgareddau mwy traddodiadol, er enghraifft, cerdded bryniau, caiacio ac ati, sydd yn aml yn canolbwyntio ar ddysgu personol a chymdeithasol – wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ers 2008;
- Addysg Awyr Agored: yn cwmpasu elfennau o Ddysgu Awyr Agored ac Addysg Antur ac iaith gyffredin ddefnyddiol i Gymru.

2. Mae addysg awyr agored yn digwydd mewn lleoliadau amrywiol – canolfannau preswyl neu ganolfannau ar gyfer ymweliadau dydd; yn yr ysgol, gyda staff arferol neu staff arbenigol allanol.

3. Mae'n cysylltu â'r cwricwlwm drwy'r canlynol:

- Maes dysgu Iechyd a Lles – yn cefnogi'r broses o ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol gydol oes o ran ffyrdd o fyw; yn creu cysylltiadau â natur; yn prosesu emosiynau ac effaith gweithredoedd ar bobl eraill;
- Maes Dysgu'r Dyniaethau – yn nodi cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored fel ystyriaeth benodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm; ac yn creu cysylltiadau â rhyfeddodau byd natur.

4. Opsiynau ar gyfer ymgysylltu ag athrawon drwy Ganolfannau Awdurdodau Lleol (canolfannau mewn awdurdodau yng Nghymru, a chanolfannau yng Nghymru sy'n eiddo i awdurdodau yn Lloegr); sefydliadau'r trydydd sector; darparwyr masnachol neu fusnesau cymysg; Ysgolion Coedwig; Cyfoeth Naturiol Cymru.

5. Mae'r heriau ar gyfer y sector yn cynnwys y canlynol:

- Darparu adnoddau i ysgolion sy'n eu cysylltu â chwricwlwm newydd Cymru a'i ethos;
- Angen cyfeirio – mae gwybodaeth am y cyngor sydd ar gael drwy Banel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru yn anghyson ymhlith ysgolion;
- Cydlynu dulliau cenedlaethol – hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o'r iaith a'r dulliau a ddefnyddir;
- Tegwch – fforddiadwyedd a hygyrchedd i bawb. Nid yw pob ysgol yn cymryd rhan, ac o fewn ysgolion, nid yw cyfleoedd bob amser yn hygyrch i bawb;
- Cydnabyddiaeth – mae angen gwella'r cyfathrebu ynghylch gwerth a diben y mentrau hyn – symud o fod yn 'bethau neis i'w cael' neu'n 'brofiadau cyfoethogi' i fod yn hawliau, a hynny fel rhan o ddull gweithredu'r athro / athrawes. Rôl gwobrau o ran ychwanegu lefel o gydnabyddiaeth ar gyfer cymryd rhan;
- Uchelgais o ran sicrhau bod dysgu awyr agored yn dod yn rhan o daith addysgol pob plentyn ac yn rhan o'r dull gweithredu parthed eu haddysg.

**Trafodaeth gyffredinol a materion i'w nodi**

6. Croesawodd y Gweinidog y cyflwyniad a myfyriodd ar y materion a ganlyn:

- Pwysigrwydd addysg awyr agored a'r cysylltiad â lles a dewisiadau bywyd dysgwyr, yn enwedig natur gynhwysol y buddion;
- Pŵer dysgu awyr agored yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, a'r cysylltiadau y mae'n eu creu â byd natur;
- Y ffaith bod adnoddau'n cael eu comisiynu'n barhaus, a'r ffaith bod cyfle i'r Rhwydwaith Cenedlaethol o arbenigwyr addysg/allanol a staff ysgolion ddod at ei gilydd mewn mentrau trylwyr i ddatblygu adnoddau ac arfer gorau ym maes addysg awyr agored.

Mae'r pwyntiau a ganlyn yn adlewyrchu'r drafodaeth fforwm agored a gafodd ei chynnal gan y rhai a oedd yn bresennol:

7. Sut i hwyluso cyfranogiad athrawon; y gofynion ychwanegol ar amser athrawon, yn enwedig teithiau preswyl, sydd yn anodd; yr angen i ystyried sicrhau adnoddau er mwyn darparu gwersi.

8. Gall codi arian helpu i gefnogi ecwiti o ran y gost o ymgymryd â theithiau, ond mae hefyd yn cael effaith ar rôl athrawon o ran cefnogi'r fenter hon.

9. Gallai ymgorffori Addysg Awyr Agored fel rhan o hyfforddiant athrawon helpu'r broses o sicrhau bod hyn yn cael ei weld fel rhan o'u rôl, ac nid fel gweithgaredd ychwanegol, a gall y profiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod COVID helpu'r broses o newid diwylliant tuag at hynny.

10. Bydd angen defnyddio a chroesawu darparwyr awyr agored arbenigol, a bydd angen cydnabod y sgiliau proffesiynol a'r arbenigedd sydd ganddynt a allai helpu'r broses o

gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

11. Mae gwaith y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored o ran mynd â dysgu allan i’r awyr agored yn dechrau gyda staff addysgu yn defnyddio eu tir eu hunain, ynghyd â chydnabyddiaeth o sgiliau a phrofiadau presennol yr athrawon; yna, mae gofyn datblygu eu hyder a'u cymhwysedd er mwyn symud ymhellach i ffwrdd.

12. Mae’r sector yn sylwi bod grwpiau llai yn mynd i’r canolfannau wrth i’r pwysau ariannol ar deuluoedd gynyddu.

13. Mae cynaliadwyedd y dull gweithredu yn bwysig, o ran ymgysylltu â darparwyr allanol a hyfforddi staff ysgol. Mae angen pecynnau cymorth priodol sy’n parhau i fod ar gael yn yr ysgol pan fydd staff yn gadael.

14. Mae ansawdd a pherthnasedd adnoddau, a sut i gyfeirio pobl atynt, yn allweddol; mae angen mapio’r hyn sy’n cael ei ddatblygu a’r hyn sydd ar gael ar draws y sbectrwm cyfan o ddysgu awyr agored.

15. Mae'r continwwm profiadau – o enedigaeth, drwy oedran ysgol, ac i fywyd cymunedol – yn hanfodol o ran cynnal gweithgarwch awyr agored ac yn cynnig opsiynau ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth yn ddiweddarach mewn bywyd.

16. Mae’r buddion iechyd corfforol ac iechyd meddwl cydnabyddedig sy’n gysylltiedig â dysgu awyr agored, a’u heffeithiau ar gysylltedd â byd natur, yn ddeilliannau sydd yr un mor bwysig, gan helpu i greu dinasyddion sy’n ymgysylltiedig ac sy’n ymwybodol o bwysigrwydd yr amgylchedd.

17. Mae angen creu profiad diogel o ansawdd da lle mae pobl yn cael eu haddysgu i fwynhau’r awyr agored yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae llawer o adnoddau ar gael, ond mae angen eu mapio a’u dwyn ynghyd, ac mae angen sicrhau bod diwylliant priodol yn datblygu yng Nghymru o ran addysg awyr agored.

18. Y mater o amharodrwydd i gymryd risg: sut yr eir i’r afael â hyn ar lefel arweinyddiaeth pan gaiff cyfleoedd eu gwrthod oherwydd y risg ganfyddedig? A oes rôl i Lywodraeth Cymru?

19. Mae angen ystyried meysydd traws-bortffolio ehangach, megis cysylltiadau â diwygiadau ym maes amaethyddiaeth, a sut mae mynediad at yr awyr agored yn cael ei reoli gan dirfeddianwyr, a sut mae tirfeddianwyr yn ymwneud â’r broses o reoli eu tir er budd dysgu awyr agored, o ystyried yr heriau sy’n bodoli ar hyn o bryd o ran cyflwr rhai llwybrau a chyfran o’r tir.

20. Bydd dadl ynghylch Bil Aelod ar Ddysgu Awyr Agored yn cael ei chynnal tua diwedd mis Hydref – Bil a gynigiwyd gan Sam Rowlands AS.

21. Cydnabu’r Gweinidog gyfleoedd ar gyfer diwylliant awyr agored sydd wedi’i wreiddio yn y system addysg ac yn null gweithredu’r cwricwlwm. Nododd yr heriau sy’n bodoli o ran adnoddau, ac mae’n dymuno ystyried ymhellach sut y gallai trafodaeth ynghylch Rhwydwaith Cenedlaethol archwilio cyfleoedd hyblyg a sicrhau continwwm o ran profiadau drwy'r cyfnodau addysg. Byddai symud i sylfaen statudol yn codi cwestiynau ynghylch cyllid ac amodau, a sut y dylid ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael at ddibenion cyflawni. Croesawir ystyriaeth bellach ynghylch y cydbwysedd rhwng ddull gweithredu integredig a chynnig gan wahanol leoliadau sy’n fwy hyblyg a chynnil.

**Camau i’w cymryd yn sgil y cyfarfod**

1. Archwilio ymarfer mapio ynghylch adnoddau gyda'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored – yr Ysgrifenyddiaeth i ddechrau sgyrsiau gyda sefydliadau addysg awyr agored allweddol ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.

2. Archwilio awgrym y Gweinidog ynghylch sgyrsiau ar y Rhwydwaith Cenedlaethol gyda ffocws ar Ddysgu Awyr Agored – yr Ysgrifenyddiaeth i wneud cais i’r Gweinidog ymweld â’r Storey Arms yn y flwyddyn newydd, gyda’r bwriad o wneud gwaith dilynol ynghylch awgrym y Gweinidog a’i fyfyrdodau eraill, sydd wedi’u nodi ym mhwynt 21 uchod.

3. Trefnu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – yr Ysgrifenyddiaeth i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn gynted â phosibl, gan sicrhau bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddion ar gael.

**Y cyfarfod nesaf:**

Diogelwch yn yr Awyr Agored

**Dyddiad ac amser:** I'w gadarnhau, yn gynnar yn 2023 – yn aros am gadarnhad gan swyddfa Dawn Bowden ynghylch dyddiad priodol

**Lleoliad:** efallai yng Ngogledd Cymru, lleoliad penodol i'w gadarnhau

**Rhithwir:** Linc Zoom: I'w gadarnhau a'i ddarparu yn y gwahoddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.